

PRIFYSGOL BANGOR

PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

Cyfarfod: 21 Mai 2010

Preseanol: Dr A R Beaumont (Cadeirydd), Dr D Assinder, Miss S Barnes, Mr R Behi, Dr G Clarke, Mr J East, Mr E Evans, Mr D N Fordham, Mr M Goodwin, Mr J Jackson, yr Athro M Khan, Dr J Latchford, Ms C Monks, Dr L Murphy, Ms S Peris-Owen, Mr G Parry, Mr J Patton, Dr G Roberts, Mr I Salisbury, Mr G W. Jones (Ysgrifennydd).

Ymddiheuriadau: Mr H Ellis, Ms L Fowlie, Mr P Hogan, Mr A John, Mr W Jones, Miss E Riches, Dr D M Roberts, Mr E W. Roberts, Mr S Roberts.

SYLWCH: Croesawodd y Cadeirydd yr Athro M Khan sy'n cymryd lle Dr D Wright, a Dr D Assinder, a oedd yn bresennol fel sylwedydd.

350. COFNODION

Cymerwyd bod Cofnodion y cyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2010, wedi'u darllen, eu cadarnhau a'u llofnodi.

351. MATERION YN CODI

(a) Cofnod 343(c) Peiriant Galw'r Larwm Tân:

Mae'r problemau a gafwyd yng nghyswllt system peiriant galw Gwyddorau Eigion, a oedd yn achosi ymyriad â system peiriant galw Safle'r Normal, wedi'u datrys.

(b) Cofnod 344(vi) Safon Bolisi ar Radon:

Nodwyd bod ail ran yr arolwg radon wedi canfod dau le â mesuriadau radon uwchlaw'r lefel weithredu. Cymerir camau lliniarol yn y manau hyn, a chynhelir arolwg radon arall ar bob adeilad nad oedd wedi'i arolygu gynt, yn ystod y gaeaf i ddod. Disgwylir adroddiad llawn adeg y Pasg yn 2011.

352. ADRODDIAD GAN Y GRŴP TASG GWEITHREDU DIOGELWCH

Derbyniwyd adroddiad oddi wrth y Grŵp Tasg ac, yn benodol, nodwyd yr eitemau isod:

- i. Mae'r Grŵp wedi cyfarfod bedair gwaith ers y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch diwethaf.
- ii. Mewn ymateb i gais gan Arolygydd nesaf AGID, mae'r Gwasanaethau I a D wrthi'n drafftio Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch ar gyfer y Brifysgol gyfan. Bydd y cynllun yn cynnwys gwelliannau parhaus a mesuriadau meincnod.
- iii. Mae gwaith ar droed i ganfod pwy sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch yn y manau sydd wedi'u Hamserlennu'n Ganolog. Bydd hyn yn sicrhau eglurder ynglŷn â swyddogaethau a chyfrifoldeb, fel y caiff y cyflwr ei arolygu ac y cymerir camau adferol yn ôl yr angen.
- iv. Bwriedir hyrwyddo'r Polisi Dim Ysmygu ymhellach, a chyflwyno Rheol 5-Metr erbyn dechrau'r semester nesaf, ac mae Gweithgor bach wedi'i sefydlu i arwain ar y maes hwn

ac edrych ar faterion ehangach.

353. SAFONAU POLISI I'W CYMERADWYO

Cyflwynwyd crynodeb o'r 'Safon Bolisi ar Ddefnydd Setiau Pelydr-X'. Yna, cafwyd trafodaeth, a chodwyd y pwyntiau isod:

- i. Tudalen 2, Datganiad Polisi: Dylai pwyslais cyfreithiol y datganiad agoriadol adlewyrchu'r Datganiad Polisi ar Iechyd a Diogelwch sydd newydd gael ei ddiwygio.
- ii. Tudalen 3, Cyffredinol: Diwygio'r atalnodi yn yr ail baragraff.

Wedi'r diwygiadau uchod, cymeradwywyd y Safon Bolisi, a ddaw i rym ar 1 Mehefin 2010.

Nodwyd hefyd fod angen gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â dadgomisiynu Setiau Pelydr-X yn ddiogel, a bod angen hefyd am fwy o eglurhad ynglŷn â'r drefn Cymeradwyo Moesegol.

354. POLISI IECHYD A DIOGELWCH

Tynnwyd sylw at y cefndir a oedd y tu ôl i lunio'r Polisi diwygiedig ar Iechyd a Diogelwch, a thynnwyd sylw at adrannau ychwanegol a oedd wedi'u cynnwys ar ôl ymgynghori. Bu'r Pwyllgor yn trafod y Polisi a nodi bod angen diwygiad yng nghyswllt Cyf. 1.0.1 a 1.0.5(i).

Gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo Polisi diwygiedig y Brifysgol ar Iechyd a Diogelwch. Wedi ystyriaeth briodol, ac yn amodol ar fân newidiadau y cytunwyd arnynt, **cymeradwywyd** y Polisi ar Iechyd a Diogelwch i'w ystyried a'i gymeradwyo gan y Cyngor.

Nodwyd hefyd ei bod yn bosibl y bydd angen mwy o ddiwygiadau ar y Polisi pan gydnabyddir Undeb y Myfyrwyr fel 'sefydliad' yn ôl ei haeddiant ei hun, yn hytrach na'i fod yn Adran ffurfiol o fewn y Brifysgol. Ystyrir y mater hwn pan ddaw'r sefyllfa gyfreithiol yn glir.

355. YR ADRODDIAD BLYNYDDOL AR IECHYD A DIOGELWCH

Cyflwynwyd trosolwg ar yr Adroddiad Blynnyddol ar Iechyd a Diogelwch, a nodwyd y pwyntiau isod yn benodol:

- a) Roedd tueddiadau ystadegol yn parhau'n gymharol gadarnhaol.
- b) Mae iechyd y staff yn gwella staff yn sgil gwell dealltwriaeth o achosion absenoldeb trwy salwch, ac yn sgil yr Archwiliadau cyfredol ar Iechyd staff.
- c) Oherwydd y sialensiau sydd ar y gorwel o ran iechyd a diogelwch yn wyneb pwysau ariannol sydd o'n blaenau, efallai y bydd angen rhoi mwy o bwyslais ar sicrhau y canfyddir effeithiau risgiau a'u rheoli, a rhaid gwneud hyn ochr yn ochr â datblygu a gweithredu Cynllun Gweithredu y mae'r Awdurdod Gweithredol dros Iechyd a Diogelwch wedi gofyn amdano, yng nghyswllt yr holl gyflogwyr yn y sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru..

Croesawyd yr adroddiad ac, yn benodol, gofynnodd y Cadeirydd am farn y Pwyllgor ynglŷn â'r *Sialensiau ar y Gorwel*. Nodwyd y pwyntiau isod:

- i. Pwysleisiwyd na ddylai 'cwtogiadau ariannol' gael effaith andwyol ar iechyd a diogelwch staff na myfyrwyr.
- ii. Erbyn hyn, mae cynnal safonau da o ran iechyd a diogelwch yn bwysicach fyth, gan fod

mwy o Gyrff sy'n Dyfarnu Grantiau Ymchwil yn gofyn am ddata ar berfformiad sefydliadau ym maes Iechyd a Diogelwch.

- iii. Gallai llai o sicrwydd o ran cyflogaeth gynyddu straen ymysg staff, a llawer ohonynt eisoes dan gryn dipyn o bwysau yn y gwaith.

356.

CADEIRYDDIAETH Y PWYLLGOR

Cyhoeddodd y Cadeirydd ei fwriad i ymddeol, gan nodi mai hwn fyddai ei gyfarfod olaf o'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch. Ceir hyd i Gadeirydd newydd, a'i (h)enwebu trwy Bwyllgor Enwebiadau'r Cyngor.

Yn awr, mae angen hefyd ddewis cadeiryddion ar gyfer yr Is-Bwyllgorau isod:

- i. Is-Bwyllgor Iechyd a Diogelwch Ymbelydredd
- ii. Is-Bwyllgor Iechyd a Diogelwch Cemeg ac Iechyd Biolegol.

357.

UNRHYW FATERION ERAILL

Mynegodd aelodau'r Pwyllgor eu gwerthfawrogiad o waith y Cadeirydd ac, ar ran y Cofrestrydd, diolchodd y Dirprwy Gofrestrydd yn ffurfiol i'r Cadeirydd am ei ymroddiad a'i fedr wrth gefnogi'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a hyrwyddo iechyd a diogelwch dros lawer o flynyddoedd.

Ategwyd y teimladau hyn gan holl aelodau'r Pwyllgor.